
# TAITH PORTH YSGADEN

Hyd: **4.7km - 3m**




**Cyfarwyddiadau**

- Cychwyn ym maes parcio'r 'Lion' (SH 236367) ac i'r ffordd fawr (B4417)
- Dal i'r chwith i ganol y pentref ac ymlaen nes dod at lôn drol sy'n arwain i'r chwith i Faes Carafanau Tyn Llan.
- Dilyn y ffordd honno ac wrth fynedfa'r maes carafanau a dilyn arwydd llwybr cyhoeddus (Llwybr Arfordir Llŷn) i'r dde.
- Wrth ddod allan ger fferm Tywyn (SH 232374) ar Ffordd yr Arfordir mynd am lwybr sy'n arwain at Draeth Tywyn.
- Cerdded tua'r de-orllewin ar hyd Llwybr Arfordir Llŷn ar hyd ben yr allt ac i Borth Ysgaden (SH 219374) (lle mae murddyn ar ben yr allt). Mynd heibio'r odyn galch ac i'r chwith, gan adael yr arfordir a dilyn lôn drol i Ffordd yr Arfordir.
- Troi i'r chwith heibio fferm Porth Ysgaden (SH 225370).
- Ar y dde gwelir llwybr yn arwain trwy'r caeau i gyfeiriad Tudweiliog.
- Heibio Tŷ Hir (SH 231366), dal i'r chwith wrth y Felin ac i fyny heibio Ysgol Tudweiliog.
- Dychwelyd i faes parcio'r 'Lion'.

**<u>Pethau i'w gweld ar y daith:</u>**



### 2 Eglwys Tudweiliog

Nawddsant yr eglwys yw Cwyfan. Ef hefyd sefydlodd eglwysi yn Llangwyfan, Dinbych ac ar Ynys Cwyfan ym Môn.

Cynlluniwyd yr eglwys bresennol gan Syr Gilbert Scott a'i hadeiladu yn 1849 o garreg leol.



### 6 Porth Cychod

Cysylltir y fan hyn a digwyddiad arbennig iawn. Un bore ym mis Mawrth 1933, cychwynnodd dau lanc ifanc allan mewn cwch i osod cewyll, ond collasant eu rhwyfau. Fe'u cariwyd allan i'r môr gan y gwynt a'r llanw a'r diwedd fu iddynt gael eu golchi i'r lan yn Kilkeel yng ngogledd Iwerddon. Gallwch ddychmygu'r holl bryderu a fu yn Nhudweiliog a'r llawenydd pan gafwyd y neges fod yr hogiau'n ddiogel.

Tybed beth fyddai eu tynged pe bai'r gwynt wedi chwythu ychydig mwy i'r gorllewin a'u gyrru heibio gogledd Iwerddon.

Ar yr allt gwelir adeilad a fu unwaith yn fan i deulu Cefnamwlch gysgodi pan ddeuent i fwynhau'r haul ac awel y môr yn ystod yr haf.



### 5 Porth Sglaig

Gwelir olion melin o'r hen oes yma a gerllaw mae Ffynnon Cwyfan sydd wedi ei sancteiddio i sant eglwys Tudweiliog.

Arferid offrymu pinnau yn y ffynnon er mwyn gwella defaid ar groen ac anhwylderau eraill.



## 7 Porth Ysgaden

Un o'r porthladdoedd bychain a fu'n brysur yn gwasanaethu ardal wledig Pen Llŷn, ardal brin ei thrafnidiaeth ar dir. Deuai llongau bychain yma rhyw hanner dwsin o weithiau bob blwyddyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl David Thomas.

Yn y ganrif flaenorol deuent o Lerpwl a Chaer yn bennaf gan fewnforio nwyddau megis llestri, haearn, lledr, pyg, tar, baco, snisin, te, coffi, gwin, siwgr, orennau ac ati. Deuid â sôp wast yn falast o Iwerddon i'w chwalu ar y caeau fel gwrtaith i'r tir, ynghyd â chanhwyllau gwêr, lliain, a chasgenni gweigion i'r penwaig.

Un tro, ym mis Awst 1759, daeth pum dwsin o hetiau ffelt o Gaernarfon i Borth Ysgaden. Deuid â glo yma wrth gwrs ac mae'r ierdydd i'w gweld heddiw.

Mewnforid hefyd galch a chodwyd odyn i'w losgi. Arferai gwragedd yr ardal ymgynnull i wau a chadw'n gynnes wrth dân yr odyn. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cynnyrch fferm a allforid - nwyddau megis menyn a chaws.

Arferai'r murddun a welir ar ben yr allt fod yn gartref i saer cychod a'i deulu. Ar dywydd garw arferai'r fam grogi cannwyll yn y ffenestr i rybuddio llongau fod creigiau ysgithrog islaw.



## 1 Tudweiliog

Tudweiliog - Dywedir mai Tudwal oedd y sant gwreiddiol y plwyf ac mai ef a roddodd ei enw i'r pentref.

Eglurir enw'r pentref hefyd gyda stori am ddyn a'i geffyl yn nofio o Iwerddon i Lŷn, ac er mwyn annog y ceffyl i nofio'n gyflymach mae'n galw arno "Ty'd Weiliog! Ty'd Weiliog"!'

Eglurhad arall yw bod modd ers talwm groesi ar gefn ceffyl i Iwerddon ar drai. Wrth ddychwelyd i Dudweiliog ar gefn ei geffyl o'r enw Gweiliog, clywodd y person gloch yr eglwys yn galw'r plwyfolion. Ceisiodd ruthro'i geffyl a gweiddi 'Tyrd Weiliog'!

Awgrymir hefyd fod yr enw'n gysylltiedig â Sant Tudwal.




## 3 Tywyn

Yn y ffermdy hwn y cynhaliodd Howell Harris seiadau - y gyntaf ohonynt yn gynnar ym mis Chwefror 1741.